Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Gymraeg Ffwrnes**
**Rhodfa Denham**
**Llanelli**
**SA15 4DD**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/07/2017**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Gymraeg Ffwrnes sydd wedi'i lleoli ar gyrion tref Llanelli. Symudodd yr ysgol i adeilad newydd yn Rhagfyr 2014. Caiff ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Mae ychydig o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, cyfran sydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer awdurdod lleol a chenedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae tua 415 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 3 ac 11 oed mewn dosbarthiadau un oedran. Daw lleiafrif o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir y Gymraeg yn brif iaith ac mae tua hanner o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Ionawr 2000. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Ffwrnes yn 2016-2017 yw £3,719. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,689 a'r lleiafswm yw £3,083. Mae Ysgol Gymraeg Ffwrnes yn safle 41 o'r 100 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- mwyafrif o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn y medrau ac yn adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol
- medrau llafar llawer o ddisgyblion yn gadarn yn y ddwy iaith ac maent yn cyfathrebu'n naturiol a huawdl wrth drafod amrywiaeth o bynciau mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol
- safonau ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn a dangosant barch a chwrteisi tuag at eu cyd-ddisgyblion, staff ac ymwelwyr
- rhan fwyaf o'r disgyblion yn frwdfrydig, yn awyddus i ddysgu ac mae lefel ymrwymiad llawer ohonynt yn uchel
- yr ysgol yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb a chwilfrydedd llawer o'r disgyblion yn llwyddiannus.
- cynlluniau ar gyfer datblygu medrau TGCh y disgyblion yn fanwl ac sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu'r medrau hyn ar llwyddiannus draws y cwricwlwm
- gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer asesu, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion
- llawer o'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau
- y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd anghenion ychwanegol dwys yn eithriadol

Fodd bynnag:

- nid yw disgyblion mwy abl ar draws yr ysgol yn gwneud digon o gynnydd yn eu dysgu
- nid yw gallu llawer o ddisgyblion i ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm yn datblygu'n ddigon cadarn
- nid yw gweithgareddau wedi eu cynllunio'n ddigon clir er mwyn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn gydlynol
- mae gallu mwyafrif o'r disgyblion i wneud penderfyniadau ac i gynllunio eu dysgu eu hunain yn gyfyngedig
- mae disgyblion yn dibynnu gormod ar fframiau ysgrifennu, sydd yn cyfyngu eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol
- mae gwaith marcio ac adborth llafar mwyafrif o athrawon yn anghyson
- mewn lleiafrif o wersi yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgwyliadau'n rhy isel ac nid yw'r amcanion dysgu yn cael eu rhannu'n ddigon clir gyda'r disgyblion

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- gan y pennaeth ddealltwriaeth addas o anghenion yr ysgol ac mae'n adnabod mwyafrif o'r agweddau y mae angen eu datblygu
- y pennaeth yn rhannu ei weledigaeth yn briodol gyda'r staff, y llywodraethwyr a'r rhieni trwy ddatblygu amcanion cyffredinol yr ysgol yn llwyddiannus
- cyfrifoldebau'r uwch dîm rheoli wedi'u diffinio'n glir
- arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ddadansoddi data perfformiad i adnabod mwyafrif o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella
- y llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac yn gwerthfawrogi'r gwaith a wna'r staff er mwyn darparu profiadau gwerthfawr i'r disgyblion
- gan yr ysgol ystod o weithgareddau priodol i werthuso ansawdd y ddarpariaeth a safonau'r disgyblion.
- cyswllt agos rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun gwella ysgol sy'n canolbwyntio'n gadarn ar godi safonau a datblygu'r ddarpariaeth

Fodd bynnag:

- nid yw'r gweithdrefnau hunanarfarnu wedi eu datblygu'n llawn na'u gweithredu yn ddigon trylwyr ac felly nid yw'r ysgol yn adnabod y meysydd pwysig i'w datblygu er mwyn gwella agweddau penodol o'r dysgu a'r addysgu
- nid yw ffocws yr uwch dîm rheoli na'r llywodraethwyr yn ddigon cadarn ar adolygu cynnydd a monitro effaith gweithdrefnau gwelliant
- mae'r llywodraethwyr yn or-ddibynnol ar wybodaeth gan y pennaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau a gosod blaenoriaethau, ac o ganlyniad, nid ydynt mewn sefyllfa ddigon cryf i herio'r arweinyddiaeth ynglŷn â pherfformiad yr ysgol

## Argymhellion

A1 Gwella safonau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm yn enwedig y disgyblion mwy abl

A2 Sicrhau cysondeb wrth ymateb i waith disgyblion fel bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella’u medau

A3 Sicrhau bod yr addysgu yn cynnig her gyson a chadarn er mwyn bodloni anghenion yr holl ddisgyblion

A4 Cryfhau prosesau hunanarfarnu’r ysgol fel bod arweinwyr yn adnabod yn well y meysydd sydd angen eu gwella ac yn monitro effaith eu gweithgareddau gwella yn drwyadl

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Gymraeg Ffwrnes yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn amrywiol. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd cadarn yn y medrau hyn ac yn adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol. Mae llawer o'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau tra bod rhan fwyaf o'r disgyblion sydd ag anghenion penodol dwys yn gwneud cynnydd arbennig. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl ar draws yr ysgol yn gwneud digon o gynnydd yn eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu tafodiaith leol gyfoethog ac yn defnyddio geirfa ac ymadroddion sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg ac yn sgwrsio'n hyderus am eu profiadau a'u diddordebau. Mae gallu'r rhan fwyaf i wrando am gyfnodau estynedig ac i gyfleu'r hyn y maent wedi'i ddysgu, yn eu geiriau eu hunain, yn datblygu'n gynyddol yn ystod eu hamser yn y Cyfnod Sylfaen. Enghraifft dda o hyn yw'r cyffro a gyflëir ganddynt wrth drafod hanes y Twrch Trwyth yn chwedl Culhwch ac Olwen. Mae medrau llafar llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gadarn dda yn y ddwy iaith. Maent yn hyderus ac yn hoelio sylw'r gynulleidfa'n gyflym. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn sgwrsio'n naturiol a huawdl am amrywiaeth o bynciau mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Enghraifft dda o hyn yw'r aeddfedrwydd a ddangosir wrth iddynt drafod hanes y frwydr i atal boddi Cwm Gwendraeth. Ar frig y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif o ddisgyblion yn darllen yn ystyrlon a chyda dealltwriaeth gynyddol o'r testun. Mae ychydig yn cychwyn newid goslef llais yn effeithiol er mwyn pwysleisio digwyddiadau pwysig yn y testun. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau darllen mwyafrif o'r disgyblion yn datblygu'n briodol yn y ddwy iaith. Mae ychydig iawn o ddisgyblion mwy abl yn trafod cynnwys stori'n fanwl ac yn mynegi barn yn hyderus am eu hoff gymeriadau ac awduron. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyffredin ymysg y rhan fwyaf o'r disgyblon ac ychydig iawn sydd yn dewis darllen o'u gwirfodd ac er mwynhad. Ar draws y cyfnod, mae uwch fedrau darllen y mwyafrif yn datblygu'n briodol ac mae eu gallu i gywain gwybodaeth mewn llyfrau neu ar y we am bwnc penodol yn datblygu'n unol â'u hoed a'u gallu. Enghraifft gadarn o hyn yw gwaith ymchwil y disgyblion ar hanes llong y Titanic.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu cynnar. Mae'r disgyblion iau yn hyderus wrth ddefnyddio gwrthrychau marcio cynnar ac yn arbrofi gyda nhw'n annibynnol. Mae mwyafrif o'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau yn ystod gweithgareddau iaith, gan ddefnyddio strwythur brawddegau cadarn, paragraffu addas ac atalnodi sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw gallu llawer o ddisgyblion i ysgrifennu'n estynedig ar draws y meysydd dysgu yn datblygu'n ddigon cadarn.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau ysgrifennu'r disgyblion yn amrywio. Mae mwyafrif o'r disgyblion yn ysgrifennu'n ddeallus i wahanol ddibenion yn y ddwy iaith ond nid yw hyn yn gyson ar draws y cyfnod. Mae lleiafrif yn cychwyn dangos

ymwybyddiaeth briodol o'r gwahanol ffurfiau ac mae ychydig yn ystyried eu cynulleidfa'n ofalus wrth gyflwyno eu gwaith. Mae lleiafrif yn datblygu eu syniadau'n ddychmygus ac yn sillafu'n weddol gywir mewn gwersi Cymraeg a Saesneg, er enghraifft wrth ysgrifennu am anifeiliaid y fforestydd glaw. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddigon estynedig yn y ddwy iaith. Maent yn dibynnu gormod ar fframiau ysgrifennu, sydd yn cyfyngu eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Ychydig iawn o'r disgyblion mwy galluog sy'n cyflawni tasgau ysgrifennu ymestynnol ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn dda mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng adio a thynnu, a rhannu a lluosi ac yn defnyddio'r ymwybyddiaeth hon yn llwyddiannus wrth ddatrys problemau rhif. Mae mwyafrif o'r disgyblion yn defnyddio unedau mesur priodol, yn casglu, cofnodi a chyflwyno data'n gywir ac yn defnyddio arian mewn sefyllfa bob dydd. Serch hyn, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn llesteirio gallu llawer o ddisgyblion mwy abl i gyflawni ar y lefelau uwch.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod briodol o strategaethau i ddatrys problemau rhifedd yn llwyddiannus yn ystod gwersi mathemateg. Maent yn cyfrifo canrannau a ffracsiynau'n gywir, er enghraifft er mwyn canfod os yw eitemau sydd ar werth mewn archfarchnad yn fargen neu beidio. Mae'r mwyafrif yn dadansoddi data ac yn pwyso a mesur gwrthrychau'n hyderus. Mewn gwersi gwyddoniaeth, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn addas wrth gofnodi canlyniadau ymchwiliadau gwyddonol ac yn creu bas data canghennog. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon cyson ar draws ystod o bynciau, yn enwedig ar frig yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn briodol mewn meysydd dysgu ac ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau'n addas i gyflwyno gwybodaeth. Maent yn hyderus, er enghraifft, wrth osod llun a thestun i greu poster am wledydd gwahanol. Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio llechi electronig yn hyderus at wahanol ddibenion ac yn rheoli cymeriad neu degan er mwyn dilyn llwybr penodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn hyderus wrth greu cyflwyniadau film neu glipiau animeiddio 2 a 3 dimensiwn, ac yn trosleisio'n llwyddiannus er mwyn creu effeithiadau sain a deialog. Mae ychydig yn cyfansoddi ac yn cynhyrchu cyflwyniadau cerddorol gan ddefnyddio ystod dda o offerynnau electronig. Mae medrau ymchwilio llawer o ddisgyblion yn gadarn ac maent yn defnyddio'r rhyngrwyd yn ystyrlon ac yn ddiogel er mwyn caffael gwybodaeth, er enghraifft am drychinebau rhyngwladol.

Yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch yn y Cyfnod Sylfaen yn is na'u cyfoedion dros y pedair blynedd diwethaf. Yng nghyfnod allweddol 2, nid oes patrwm o wahaniaeth mewn perfformiad y grwpiau hyn o'u cymharu â'u cyfoedion, er bod y gwahaniaeth ychydig yn fwy nodedig ar y lefelau uwch. Dros amser, mae'r bwlch rhwng cyrhaeddiad y merched a'r bechgyn wedi lleihau ar y deilliannau a'r lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch.

Yn gyffredinol, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliannau disgwyliedig mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn is na’r canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y deilliant uwch, dros yr un cyfnod, mae’r perfformiad yn amrywio rhwng y 25% isaf a’r 50% uwch.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad y disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig yn yr holl bynciau dros yr un cyfnod wedi amrywio rhwng y 25% isaf a’r 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad ar y lefel uwch yn is na’r canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg.

**Lles: Digonol**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at fyw, bwyta ac yfed yn iach. Mae’r mwyafrif yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau hybu ffitrwydd, er enghraifft pêl-droed, dawns, hoci a phêl-rwyd. Mae llawer yn hyderus bod yr ysgol yn eu haddysgu’n effeithiol am bwysigrwydd bywyd a bwyta’n iach ac mae hyn yn amlygu ei hun yn y dewisiadau synhwyrol a wnânt amser cinio.

Mae bron pob disgybl yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn ofidus neu’n poeni am rywbeth. Mae rôl y cynghorau ysgol ac eco yn datblygu’n briodol. Gwna’r cynghorau gyfraniadau gwerthfawr i ychydig o agweddau ar fywyd yr ysgol, fel dylanwadu ar amseroedd egwyl a’r ddarpariaeth awyr agored. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn frwdfrydig, yn awyddus i ddysgu ac mae lefel ymrwymiad llawer ohonynt yn uchel. Fodd bynnag, mae gallu mwyafrif o’r disgyblion i wneud penderfyniadau ac i gynllunio eu dysgu eu hunain yn gyfyngedig. Yn ogystal, nid ydynt yn gwerthuso eu gwaith eu hunain a’u cyfoedion yn ddigon effeithiol er mwyn datblygu dealltwriaeth gadarn o beth sydd angen iddyn nhw ei wneud er mwyn gwella eu medrau.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ar draws yr ysgol yn cydweithio yn yr ardaloedd dysgu ac yn chwarae’n hapus yn ystod amser egwyl a chinio. Mae’r disgyblion hŷn yn gofalu am ddisgyblion iau o’u gwirfodd drwy gynllun llwydiannus heddychwyr y buarth. Mae safonau ymddygiad bron pob un o’r disgyblion yn dda iawn. Dangosant barch a chwrteisi tuag at eu cyd-ddisgyblion a’r staff. Maent yn groesawgar i ymwelwyr ac yn falch iawn o’u hysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfranogi mewn gweithgareddau cymunedol yn rheolaidd ac yn datblygu eu hyder yn effeithiol trwy ystod eang o brofiadau gwerthfawr. Enghraifft dda o hyn yw ymweliadau i sgwrsio gyda’r henoed yng nghartref Tŷ Cariad.

Er i’r ysgol weld gwelliant yn ddiweddar mewn presenoldeb disgyblion, mae’r canrannau ar ddiwedd y flwyddyn yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn tair o’r pedair blynedd ddiwethaf. Mae prydlondeb bron pob disgybl yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb a chwilfrydedd llawer o'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi eu sefydlu'n gadarn ac mae'r cynlluniau gwaith yn bodloni gofynion addysgu pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol.

Mae mwyafrif o'r athrawon yn darparu gweithgareddau cadarn i ddatblygu medrau iaith a rhif y disgyblion mewn gwersi Cymraeg, Saesneg a mathemateg. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau gwaith yn ystyried gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn llawn er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad o un flwyddyn i'r llall. O ganlyniad, nid yw'r medrau hyn yn cael eu hatgyfnerthu a'u datblygu yn ddigon effeithiol mewn pynciau eraill yn enwedig ar frig cyfnod allweddol 2.

Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn cynllunio'n bwrpasol ac yn darparu cwricwlwm dychmygus sy'n adeiladu ar brofiadau a gwybodaeth blaenorol disgyblion yn effeithiol, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Mae ystod amrywiol o ymweliadau addysgol, yn ogystal â gwahodd ymwelwyr i'r ysgol, yn atgyfnerthu'r dysgu yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yng nghyfnod allweddol 2 yn arwain at gynnydd digon cadarn mewn dysgu ac nid oes gan ychydig o'r athrawon drosolwg ddigon clir o'r hyn a ddysgir ar draws y cyfnod. Mae cynlluniau ar gyfer datblygu medrau TGCh y disgyblion yn fanwl ac mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu'r medrau hyn yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig ar draws yr ysgol yn dda. Mae athrawon yn gosod pwyslais gwerthfawr ar gywirdeb yr iaith lafar, ac mae'r rhan fwyaf o staff yr ysgol yn fodelau iaith arbennig. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliant a hanes Cymru yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn wybodus iawn wrth drafod ymgyrch teulu'r Beasley yn y 1950au yn ogystal â'r cysylltiadau Cymreig â mordaith y Titanic.

Mae'r ysgol yn cefnogi gweithgareddau'r Urdd yn flynyddol trwy baratoi llawer o ddisgyblion ar gyfer cystadlu yn yr eisteddfod. Mae hyn yn datblygu ymdeimlad cryf o hunaniaeth ymysg llawer o'r disgyblion.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi ei sefydlu'n gadarn. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf gydag ysgolion ledled Ewrop. Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau buddiol er mwyn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o gelfyddyd, traddodiadau a chrefyddau'r gwledydd hyn yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i disgyblion feithrin ymwybyddiaeth dda o faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd. Gwneir defnydd effeithiol a phwrpasol o'r ardal awyr agored gan gynnwys yr ardd, y llyn a'r goedwig fechan, i gefnogi'r addysgu.

## Addysgu: Digonol

Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda. Maent yn defnyddio ystod gadarn o strategaethau buddiol ac adnoddau pwrpasol i hybu'r dysgu. Mae athrawon a'r staff cymorth yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn cael cefnogaeth addas yn y dosbarth a thrwy ystod dda ac amrywiol o raglenni ymyrraeth. Mae rheolaeth dosbarth a chyflymdra'r sesiynau addysgu yn gadarn ac yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn weithgar iawn yn y gwersi.

Mae gan athrawon ddealltwriaeth dda o ofynion ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac maent yn darparu cyfleoedd cyffrous i ddatblygu medrau meddwl disgyblion yn effeithiol yn y dosbarth ac yn yr ardaloedd tu allan. Darperir tasgau diddorol sy'n ysgogi diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r gweithgareddau gan amlaf yn meithrin dysgwyr annibynnol yn llwyddiannus ac yn eu hannog i wneud dewisiadau a phenderfyniadau sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau wedi eu cynllunio'n ddigon clir er mwyn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn gydlynol.

Mewn lleiafrif o wersi yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgwyliadau'n rhy isel ac nid yw'r amcanion dysgu yn cael eu rhannu'n ddigon clir gyda'r disgyblion. Mae ychydig o athrawon yn adolygu cynnydd disgyblion yn rheolaidd yn ystod y gwersi ond, yn gyffredinol, nid yw'r meini prawf llwyddiant yn herio disgyblion o allu uwch yn ddigon cyson.

Mae llawer o'r athrawon yn darparu adborth adeiladol ar lafar i'r disgyblion yn ystod y gwersi. Fodd bynnag, mae marcio mwyafrif o'r athrawon yn anghyson ac nid yw eu sylwadau'n ddigon eglur er mwyn galluogi'r disgyblion i wybod pa mor dda maent yn gwneud, a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Nid yw mwyafrif y disgyblion yn cael cyfleoedd i asesu eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion ac, o ganlyniad, nid ydynt yn ddigon ymwybodol o'u targedau ar gyfer gwella safon eu gwaith. Mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith yn cyfyngu gallu llawer o ddisgyblion i ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer asesu, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion ar ddiwedd blwyddyn ysgol. Mae athrawon yn defnyddio data olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol i adnabod anghenion ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion. Defnyddir deilliannau asesu yn bwrpasol er mwyn cynllunio rhaglenni ymyrraeth effeithiol sy'n bodloni gofynion y rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r elfen hon o waith yr ysgol yn gryfder.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae bron pob un o'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau buddiol ar draws y cwricwlwm ac mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol niferus er mwyn hyrwyddo manteision byw, bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol, drwy gydweithio'n llwyddiannus â chlybiau a chymdeithasau lleol, yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymuno â gweithgareddau fel pêl-droed, tenis bwrdd, pêl-rwyd, rygbi, criced, dawns a chystadlaethau chwaraeon yr Urdd.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn cynllunio'n ofalus er mwyn darparu cyfleoedd cadarn i ddisgyblion ystyried gwerthoedd yr ysgol, yn ogystal â chyfleodd buddiol i fyfyrio yn ystod cyfnodau addoli ac amser cylch.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol yn gryf, gyda staff a disgyblion yn ymuno â'r gymuned leol i godi symiau sylweddol o arian at elusennau lleol a chenedlaethol. Trwy gysylltiadau buddiol â gwledydd tramor, a thrwy bwyslais cryf ar astudiaeth o wledydd yn y cwricwlwm, mae staff yn atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill yn briodol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn fuddiol iawn. Mae'r gefnogaeth a roddir i ddisgyblion sydd ag anghenion dwys yn eithriadol. Mae nifer o raglenni ymyrraeth, sy'n cael eu harwain yn fedrus gan gynorthwywyr yn yr ysgol, yn cael effaith dda iawn ar safonau lles disgyblion, er enghraifft trwy ddatblygu gallu pob plentyn i ddefnyddio arwyddiaith wrth arwyddo emynau yn ystod gwasanaethau'r ysgol

Mae gan yr ysgol gysylltiadau arbennig â nifer fawr o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol. Mae hyn yn sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i ddisgyblion, staff a rhieni. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn fanwl iawn, yn cynnwys targedau clir ac maent yn cael eu trafod yn rheolaidd gyda'r rheini, disgyblion ac asiantaeth allanol perthnasol. O ganlyniad, mae disgyblion ag anghenion ychwanegol penodol dwys yn gwneud cynnydd da iawn o ran eu lles ac yn cyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol, gynhwysol a gofalgar lle mae'r disgyblion yn teimlo'n hapus. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ymdeimlad amlwg o barch sy'n bodoli rhwng disgyblion ac oedolion, a disgyblion â'i gilydd. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad ac agwedd gadarnhaol bron pob un o'r disgyblion. Mae'r adeilad a'r safle yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac mae safon glanweithdra yn uchel. Mae llawer o'r dosbarthiadau yn cynnig awyrgylch ddysgu ysgogol gydag arddangosfeydd deniadol yn dathlu gwaith disgyblion.

Mae dosbarthiadau wedi eu cynllunio a'u trefnu'n effeithiol er mwyn sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu diwallu a bod yr ysgol yn bodloni gofynion y cwricwlwm. Mae darpariaeth dda o adnoddau dysgu sydd yn cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu. Mae hyn yn cynnwys ystod helaeth o gyfarpar TGCh, gyda bron bob un disgybl yn gwneud defnydd effeithiol o lechi electronig er mwyn cefnogi eu haddysg. Yn y Cyfnod Sylfaen, gwneir defnydd gwerthfawr o ardaloedd cysgodol awyr agored. Yn ogystal, mae gan bob dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen fynediad hwylus a hygyrch i'r ardaloedd allanol.

Mae tir yr ysgol yn eang iawn. Mae'n cynnwys cyfleoedd ardderchog i ddisgyblion ddefnyddio'r ardd, ardal chwaraeon, llyn, coedwig, ardal werdd gydag offer dringo a llwybrau a mannau tawel. Mae'r adnoddau hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i

disgyblion ddysgu, chwarae a chymdeithasu â'i gilydd. Gwneir defnydd buddiol o'r tir ehangach drwy weithgareddau fel teithiau synhwyrus, helfa drysor a sesiynau 'Mercher Mwdlyd'.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth addas o anghenion yr ysgol. Mae'n adnabod mwyafrif o'r agweddau y mae angen eu datblygu ac mae'n sefydlu blaenoriaethau priodol er mwyn gwella gwaith yr ysgol. Llwydda i rannu ei weledigaeth yn briodol gyda'r staff, y llywodraethwyr a'r rhieni trwy ddatblygu amcanion cyffredinol yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'n gosod pwyslais cadarn ar wella safonau a lles y disgyblion sydd yn cychwyn cael effaith gadarnhaol ar y dysgu ac addysgu.

Mae'r ysgol wedi ailstrwythuro aelodaeth a chyfrifoldebau'r uwch dîm rheoli yn ddiweddar, ac mae gan unigolion gyfrifoldebau penodol a disgrifiadau swydd clir. Maent yn cwrdd yn rheolaidd ond nid yw'r aelodau i gyd yn bresennol bob tro. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhy anffurfiol ac nid oes cofnodion yn cael eu cadw er mwyn galluogi arweinwyr i fonitro ac adolygu cynnydd a phenderfyniadau yn ddigon effeithiol. Mae'r uwch dîm rheoli yn dechrau cymryd rhan yn y broses o arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau er mwyn gwerthuso safon yr addysgu. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o ddata perfformiad i adnabod mwyafrif o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Er enghraifft, mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n briodol i adnabod disgyblion sydd angen ymyrraeth er mwyn gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Er hynny, nid yw ffocws yr arweinyddiaeth yn ddigon cadarn ar adolygu cynnydd a monitro effaith gweithdrefnau gwelliant. Mae hyn yn eu hatal rhag cyfrannu'n effeithiol at lunio cyfeiriad strategol hir dymor ar gyfer yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac yn gwerthfawrogi'r gwaith a wna'r staff er mwyn darparu profiadau gwerthfawr i'r disgyblion. Maent yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth a chydlynwyr cwricwlaidd ar faterion priodol, ynghyd ag adroddiadau gan yr is-bwyllgorau cyllid a staffio. O dan arweiniad cadeirydd sydd yn newydd iawn i'w swydd, mae ychydig o'r llywodraethwyr wedi dechrau ymweld â'r ysgol i wella eu dealltwriaeth o waith disgyblion a'u safonau. Fodd bynnag, maent yn or-ddibynnol ar wybodaeth gan y pennaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau a gosod blaenoriaethau ac nid ydynt yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol er mwyn barnu gwaith yr ysgol. Mae eu hymwybyddiaeth o berfformiad yr ysgol mewn perthynas ag ysgolion tebyg yn wan. Nid ydynt mewn sefyllfa ddigon cryf i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol er mwyn herio'r arweinyddiaeth ynglŷn â pherfformiad yr ysgol.

Mae trefniadau gwerthfawr yn bodoli ar gyfer rheoli perfformiad athrawon a'r staff ategol. Mae'r ysgol yn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn briodol ac yn gosod pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llafar disgyblion. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn gadarn ar waith ac mae'r ysgol yn rhoi sylw dyledus i weithgareddau ynglŷn ag amddifadedd disgyblion.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r arweinwyr yn casglu tystiolaeth uniongyrchol drwy ystod o weithgareddau priodol er mwyn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth a safonau'r disgyblion. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad cadarn o ddata, craffu ar gynllunio a gwaith disgyblion, arsylwi gwersi a gwirio trefniadau olrhain cynnydd yr ysgol. Mae'r prosesau hunanarfarnu yn rhoi ystyriaethau priodol i safbwyntiau disgyblion a rhieni ac mae'r arweinwyr yn ymateb yn gyflym i ddeilliannau holiaduron pan fo'n briodol iddynt wneud hynny. Fodd bynnag, prin iawn yw cyfraniad y llywodraethwyr i'r broses. Nid yw'r gweithdrefnau hunanarfarnu wedi eu datblygu'n llawn na'u gweithredu yn ddigon trylwyr. O ganlyniad, nid yw'r ysgol yn adnabod y meysydd pwysig i'w datblygu er mwyn gwella agweddau penodol o'r dysgu a'r addysgu. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi bod yn araf yn ymateb i'r angen i gynllunio'n fwy bwriadus er mwyn datblygu medrau disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen gynhwysfawr ac arfarnol. Fodd bynnag, mae ychydig o arfarniadau mewn agweddau allweddol yn rhy hael, ac nid yw'n darparu darlun cyflawn o'r sefyllfa. Mae cyswllt agos rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun gwella ysgol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n gadarn ar godi safonau a datblygu'r ddarpariaeth, gan ymateb i ddatblygiadau diweddar cenedlaethol. Mae'n rhoi sylw da i flaenoriaethau'r ysgol ac yn cynnwys targedau priodol ar gyfer gwelliant. Mae'r cynllun wedi ei gostio'n effeithiol ac yn cynnwys amserlen weithredu glir a chyfrifoldebau staff penodol. Serch hyn, mae'r cynllun yn cynnwys gormod o flaenoriaethau ac nid yw'r ysgol yn canolbwyntio'n ddigonol ar wella'r meysydd pwysig sydd angen eu gwella. Mae'r ysgol wedi sefydlu meini prawf addas er mwyn gwerthuso cynnydd yn erbyn targedau'r cynllun gwella. Fodd bynnag, nid yw'r uwch dîm rheoli na'r llywodraethwyr yn cymryd rhan ddigon gweithredol wrth fonitro effaith y cynllun gwella.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn gadarn ac yn cael effaith fuddiol ar brofiadau'r disgyblion. Mae'r rhieni yn gefnogol i'r holl weithgareddau sy'n cael eu darparu ac yn ymfalchïo ym mholisi 'drws agored' yr ysgol. Maent yn derbyn gwybodaeth yn rheolaidd am gynnydd eu disgyblion ac maent yn hapus gyda llawer o agweddau ar fywyd yr ysgol. Mae'r rhieni'n cydweithio'n agos gyda staff a disgyblion er mwyn codi arian i wella adnoddau'r ysgol ac i gefnogi ymweliadau addysgol.

Mae'r berthynas yr ysgol â'r gymuned yn un lewyrchus gydag ymweliadau ac ymwelwyr yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cadarn i ddisgyblion weithio gydag asiantaethau fel yr heddlu yn lleol. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithio â swyddogion cymunedol yr heddlu ynglŷn â diogelwch y ffordd y tu allan i'r ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n dda wrth iddynt drosglwyddo o'r lleoliad meithrin i addysg amser llawn yn yr ysgol. Mae cynllun pontio cadarn wedi ei sefydlu er mwyn datblygu cysylltiadau agos gyda'r ysgol uwchradd. Mae hyn yn cynnwys trefniadau cadarn ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae trefniadau pontio effeithiol a hwylus yn hyrwyddo lles disgyblion wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r arweinwyr yn trafod a monitro cyllideb flynyddol yr ysgol yn briodol. Mae digon o athrawon yn yr ysgol ac mae ganddynt gymwysterau priodol. Caiff athrawon eu cefnogi'n dda iawn gan y cymorthyddion dosbarth sy'n rhoi cefnogaeth gadarn i unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn y gwersi ac mewn sesiynau ar wahân.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad a chyfarfodydd gwerthuso cadarn ar waith i sicrhau bod yr ysgol yn diwallu anghenion bron pob aelod o staff. Caiff y staff gyfleoedd priodol ar gyfer datblygiad proffesiynol a hyfforddiant sy'n cysylltu'n effeithiol â mwyafrif o flaenoriaethau'r ysgol. Mae ystod o rwydweithiau dysgu proffesiynol gydag ysgolion eraill yn cyfoethogi profiadau dysgu staff yn bwrpasol ac yn helpu gwella deilliannau ar gyfer disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r grant amddifadedd i gefnogi grwpiau penodol o disgyblion. Mae amrediad buddiol o adnoddau yn yr ysgol sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i helpu'r holl ddisgyblion gael mynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau ar gyfer codi safonau a lles y disgyblion ac maent yn cael eu monitro'n effeithiol.

O ystyried y safonau mae disgyblion yn eu cyflawni, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692135 - YSGOL GYMRAEG FFWRNES**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 348 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 15.9 |
| Grŵp PYD | 2 (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 33 | 26 | 45 | 42 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 87.9 | 80.8 | 86.7 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 33 | 26 | 45 | 42 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.9 | 80.8 | 88.9 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 30.3 | 15.4 | 28.9 | 40.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 33 | 26 | 45 | 42 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.9 | 80.8 | 86.7 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 9.1 | 30.8 | 22.2 | 47.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 33 | 26 | 45 | 42 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 97.0 | 92.3 | 95.6 | 97.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 21.2 | 57.7 | 60.0 | 69.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692135 - YSGOL GYMRAEG FFWRNES**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 348 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 15.9 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 24 | 27 | 25 | 27 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 83.3 | 85.2 | 92.0 | 92.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 27 | 25 | 27 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 75.0 | 88.9 | 92.0 | 96.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | 40.7 | 44.0 | 37.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 27 | 25 | 27 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.5 | 88.9 | 88.0 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | 37.0 | 36.0 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 27 | 25 | 27 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.8 | 88.9 | 96.0 | 92.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | 25.9 | 36.0 | 37.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 27 | 25 | 27 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.8 | 88.9 | 96.0 | 92.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 16.7 | 33.3 | 24.0 | 37.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 100 | 98 | 2 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 96 | 81 | 15 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 84% | 16% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 99 | 95 | 4 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 100 | 93 | 7 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 97 | 93 | 4 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 93 | 87 | 6 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 99 | 94 | 5 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 100 | 95 | 5 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 96 | 83 | 13 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 86% | 14% | |
| | | 90% | 10% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 99 | 91 | 8 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 92% | 8% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 92 | 63 | 29 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 68% | 32% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 91 | 66 | 25 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 73% | 27% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 15 | 7 | 4 | 2 | 0 | 2 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 47% | 27% | 13% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 15 | 10 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 15 | 12 | 2 | 0 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 80% | 13% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 15 | 7 | 4 | 3 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 47% | 27% | 20% | 0% | | |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 15 | 4 | 9 | 0 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 27% | 60% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 15 | 5 | 6 | 2 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 33% | 40% | 13% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 15 | 5 | 8 | 1 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 33% | 53% | 7% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 15 | 5 | 5 | 2 | 2 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 33% | 33% | 13% | 13% | | |
| | | 48% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 15 | 5 | 4 | 5 | 1 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 33% | 27% | 33% | 7% | | |
| | | 59% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 15 | 6 | 8 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 40% | 53% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 38% | 3% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 15 | 8 | 6 | 0 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 53% | 40% | 0% | 7% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 15 | 4 | 3 | 1 | 1 | 6 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 27% | 20% | 7% | 7% | | |
| | | 55% | 39% | 5% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 15 | 5<br>33% | 3<br>20% | 6<br>40% | 1<br>7% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 48% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 15 | 5<br>33% | 6<br>40% | 3<br>20% | 1<br>7% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 15 | 5<br>33% | 4<br>27% | 2<br>13% | 1<br>7% | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 15 | 4<br>27% | 6<br>40% | 1<br>7% | 0<br>0% | 4 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 15 | 4<br>27% | 4<br>27% | 2<br>13% | 1<br>7% | 4 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 15 | 7<br>47% | 8<br>53% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 15 | 6<br>40% | 5<br>33% | 1<br>7% | 2<br>13% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dyfrig Wyn Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| David Kenneth Davies | Arolygydd Tîm |
| Carys Pritchard | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Gwennol Anghard Ellis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Catherine Lloyd-Jenkins | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.